Ebrill 2024

GRIFFITHS

Amddiffyn yr Arfordir yn Hen Golwyn

Penodwyd Griffiths gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wneud gwaith ar Brosiect Amddiffyn yr Arfordir yn Hen Golwyn ym mis Mawrth 2021, sydd bellach bron wedi'i gwblhau. Mae'r cynllun wedi mynd i'r afael â rhan ddwyreiniol Promenâd Hen Golwyn sydd fwyaf mewn perygl o ddymchwel rhwng Rotary Way a Splash Point (ger Bwâu Hen Golwyn), ac mae'n cynnwys:

- Gosod amddiffynfeydd creigiau i amddiffyn y morglawdd a'r promenâd
- Ymestyn y geuffos bresennol yn Splash Point
- Diogelu arllwysfa Dŵr Cymru/Welsh Water
- Darparu platfform pysgota newydd yn Splash Point
- Gwell strwythurau sy'n rhoi mynediad i'r traeth
- Gwell mynediad dros atgorau presennol ar y traeth
- Adeiladu morglawdd newydd
- Codi lefel y promenâd

I gael rhagor o wybodaeth am brosiectau amddiffyn yr arfordir y Cyngor, ewch i: https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Leisure-sport-and-health/Coast-and-Countryside/Seaside/Beaches-and-Promenades/Coastal-Defence-Projects/Coastal-Defence-Projects.aspx

Ariennir y prosiect amddiffyn yr arfordir hwn gan Lywodraeth Cymru

Cynnydd y Prosiect

Mae'r gwaith o osod **y wal gynnal** 720m o graig wedi'i gwblhau; o'r 160,000 tunnell o amddiffynfeydd y graig sydd ei angen i wneud hyn, mae 135,000 o dunelli wedi'u mewnforio gyda'r gweddill yn cael eu hailosod o'r graig bresennol ar y safle. Mae dwy geuffos newydd wedi'u hadeiladu ynghyd â slabiau amddiffyn rhag arllwysfeydd.

Mae'r gwaith o adeiladu ramp mynediad newydd i'r platfform pysgota, ynghyd â grisiau mynediad newydd i'r traeth hefyd wedi'u cwblhau, gan ganiatáu i ni osod y darnau olaf o amddiffinfeydd y graig o amgylch yr ardaloedd hyn.

Mae 200 metr o waith pibelli, ceblau a 1,850 metr o ymylfeini wedi'u gosod ar hyd y promenâd gyda 21 o golofnau golau newydd bellach yn eu lle ac yn weithredol. Mae'r promenâd wedi'i godi i'w lefel newydd, tua 1.5 metr (tua 5 troedfedd) yn uwch nag o'r blaen, gyda'r gwaith gosod celfi stryd, ffensys ac arwynebau bron wedi'u cwblhau.

Eich Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ar gyfer y prosiect hwn yw Rich Foxhall .

E-bost:
oldcolwyncoastaldefence@alungriffiths.co.uk

Rhif ffôn: 0330 041 2185*

*** Codir cyfraddau galwadau cenedlaethol am alwadau i'r rhif hwn a chânt eu cynnwys mewn cynlluniau munud cynhwysol o linellau tir a ffonau symudol**

Caiff galwadau eu monitro y tu allan i oriau gwaith arferol ac mae cyfleuster neges llais ar gael.



Gyda 400 metr o ffensys newydd wedi'u gosod ar hyd wal y promenâd, a 5,500 tunnell o ddeunydd llenwi wedi'i ddefnyddio i godi'r promenâd i'w lefel newydd, roeddem yn falch iawn o ddarparu taith dywys i aelodau Cymdeithas Preswylwyr Hen Golwyn yn ddiweddar ar hyd y promenâd a oedd bron wedi'i gwblhau, a ailagorwyd i'r cyhoedd ac i draffig ddydd Gwener 12 Ebrill 2024. Bydd y gwaith sy'n weddill yn cael ei gwblhau yn fuan iawn. Diolch yn fawr i David Curtis, sydd hefyd yn aelod o Gymdeithas Preswylwyr Hen Golwyn ac a ymunodd â'r daith gerdded am ddarparu'r lluniau a ddefnyddiwyd trwy gydol y prosiect i ni. Diolch yn fawr!



Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi ddilyn Griffiths ar y cyfryngau cymdeithasol?
Rydym ni ar LinkedIn , Facebook , Instagram ac X

I ddysgu mwy am ein holl brosiectau sydd ar y gweill ledled Cymru a gorllewin Lloegr gallwch hefyd ymweld â'n tudalen we gymunedol https://community.griffiths.co.uk/ a chlicio ar 'Prosiectau'